CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd) Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-Gadeirydd) Y Cynghorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAgS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Pennaeth Gwasanaethau Tai Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd, Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol Rheolwr Sgriwtini, Swyddog Pwyllgor (MEH).
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Eric W Jones, R O Jones.

1. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:-

2. 18 Mai, 2021 (10.00 a.m.)
3. 18 Mai, 2021 (Cyfarfod Blynyddol) (2.00 p.m.)
4. 29 Gorffennaf, 2021 (Arbennig)

5. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

3. I DDERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

- Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i staff y Cyngor am eu gwaith caled parhaus er mwyn cynnal gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod heriol ers y pandemig.

- Nododd y Cadeirydd fod yr ysgolion bellach wedi ail agor yn dilyn gwyliau'r Haf. Mynegodd ei ddymuniadau gorau i'r holl ddisgyblion ynghyd â'r disgyblion hynny sydd wedi symud ymlaen i addysg bellach ac i fyd gwaith.

* * * *

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Jeff Evans a'i deulu wedi iddo golli ei chwaer yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod arall o'r Cyngor neu unrhyw Aelod o Staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

4. CYFLWYNO DEISEBAU

Dim wedi eu derbyn.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2020-2021 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2020/21 gan y Cynghorydd Peter Rogers, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'i staff am y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y pandemig.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2020/21.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHLONRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21

Cafodd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf, 2021 ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei dderbyn.

Roedd Arweinydd y Cyngor, yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dymuno diolch i'r Cyfarwyddwr a staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith a nododd ei bod yn amlwg o'r adroddiad bod

amrywiaeth o wasanaethau wedi parhau yn ystod y pandemig ynghyd â gwaith partneriaeth ag asiantaethau allanol.

Nododd y Cynghorydd G O Jones, fel Aelod o'r Panel Sgriwtini Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, ei fod yntau hefyd yn dymuno diolch i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith parhaus.

PENDERFYNWYD cadarnhau adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21.

7. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD: PWERAU WEDI'U DIRPRWYO – DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL A BUDDION CYMUNEDOL ANSTATUDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf, 2021 i'r Cyngor ar gyfer ei dderbyn.

PENDERFYNWYD:-

- **Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol fel Awdurdod Lleol, Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol.**
- **Dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau sydd angen Gorchymyn Datblygu Arbennig (e.e. Rheoli Ffiniau) o dan Adran 59(3) yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo ei awdurdod dros negodi'r holl fuddion cymunedol anstatudol a phob penderfyniad sy'n berthnasol i drafodaethau o'r fath, yn gysylltiedig â, neu'n deillio o ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), i'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.**
- **Diweddaru adran 3.5.3. yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau uchod.**

8. DATGANIAD AMRYWIAETH

Cyflwynwyd Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 29 Gorffennaf, 2021 ar gyfer ei dderbyn.

PENDERFYNWYD:

- **Mabwysiadu'r datganiad amrywiaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad;**
- **Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gytuno cynllun gweithredu i gefnogi'r datganiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 o'r gloch

Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD